# Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Addysg Bellach

## Dyddiadau cyflwyno: Dydd Gwener, 14 Tachwedd 2025 a Dydd Gwener, 19 Mehefin 2026

Anfonwch gynllun gweithredu'r coleg i em.cynhwysiant@medr.cymu erbyn **Dydd Gwener, 14 Tachwedd 2025.**

Anfonwch grynodeb o ganfyddiadau'r matrics aeddfedrwydd a'r templed monitro i em.cynhwysiant@medr.cymu erbyn **Dydd Gwener, 19 Mehefin 2026.**

| **Adran un: Manylion y coleg** | |
|---|---|
| Enw'r coleg: | |
| Uwch reolwr y coleg â chyfrifoldeb arweiniol dros wrth-hiliaeth<br>*Enw a Theitl:* | |
| Cyswllt yn y coleg sy'n gyfrifol am adrodd wrth Medr.<br>*Enw a theitl:* | |
| Manylion e-bost cyswllt y coleg: | |

Nodiadau canllaw

- Rydym yn gofyn am yr wybodaeth hon i lywio ein gwaith datblygu polisi, ac i gyfrannu at ein hymgysylltiad â Llywodraeth Cymru wrth iddi weithredu'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a diweddariad.
- Byddem yn croesawu cael yr wybodaeth a ddarperir inni ar ffurf brawddegau bwled er mwyn lleihau baich colegau wrth adrodd wrthym.

- Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth o'ch adroddiadau os ystyriwn ei bod yn arfer diddorol, neu i'w defnyddio yn ein hadroddiadau i Lywodraeth Cymru.
- Rhowch wybod inni os oes gwybodaeth benodol nad ydych chi eisiau inni ei rhannu'n ehangach. Gofynnir ichi ddarparu gwybodaeth am wasanaethau neu weithgareddau yn unig, yn hytrach na gwybodaeth yn gysylltiedig ag unigolion.
- Byddwn yn storio ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol er mwyn cysylltu â chi ynghylch y prosiect hwn. Edrychwch ar bolisi preifatrwydd Medr am wybodaeth ynghylch sut rydym yn defnyddio data personol.

| Adran dau: Llywodraethu a rheoli | |
|---|---|
| Esboniwch yn fras sut mae'r coleg wedi adolygu ei gynnydd tuag at yr amcanion a osodwyd yn ei Gynllun Gweithredu.<br>*Sut ydych chi wedi ymgysylltu â staff a dysgwyr? Pa dystiolaeth feintiol ac ansoddol ydych chi wedi'i defnyddio wrth werthuso cynnydd? Sut y casglwyd/dadansoddwyd y dystiolaeth hon?* | |
| Sut mae'r coleg wedi cynnwys dysgwyr, staff a rhanddeiliaid o leiafrifoedd ethnig wrth greu ac adolygu eich cynllun gweithredu?<br>*Sut ydych chi wedi sicrhau ymwybyddiaeth o'r cynllun? Sut ydych chi nid yn unig wedi ceisio adborth gan ddysgwyr, staff a rhanddeiliaid o leiafrifoedd ethnig, ond wedi defnyddio ac ystyried yr adborth hwnnw?* | |
| Cadarnhewch fod cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth wedi cael ei fonitro ar lefel y tîm, yr uwch reolwyr a'r Bwrdd yn 2025/26. | |

## Adran tri: Crynodeb o gynnydd 2025/26 (Ebrill 2025 – Gorffennaf 2026)

Cyflwynwch y cynnydd a gafwyd yn erbyn Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth 2025/26 y Coleg drwy ychwanegu colofn at y cynllun. Rhowch grynodeb isod:
*Pa gyflawniadau allweddol y mae'r Cynllun wedi'u sicrhau yn 2025/26 (Ebrill 2025 - Gorffennaf 2026)?*
*A oes meysydd lle mae cynnydd wedi bod yn heriol, neu lle mae wedi cael ei ohirio, ac os felly, pam?*
*Sut mae effaith eich cynllun gweithredu wedi cael ei mesur, a pha ddata a/neu dystiolaeth o effaith sydd wedi cael ei gasglu/a fydd yn cael ei gasglu?*
*Cadarnhewch fod hyn wedi'i rannu â'r Bwrdd.*

## Adran pedwar: Disgwyliadau Medr

Yn 2025/26 bydd colegau'n derbyn £21k (pro rata am 16 mis). I roi cyfrif am y cyllid hwn, cadarnhewch fod y coleg:

| **Blaenoriaeth** | *Diweddarwch y golofn hon drwy roi cadarnhad neu esboniad arall.* |
|---|---|
| wedi ystyried y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun edi'i ddiweddaru wrth ddiweddaru ei gynllun gweithredu | ***Do/Naddo*** *(dileer fel bo'n briodol).*<br>*Os **naddo**, rhowch wybodaeth bellach.* |
| wedi ymestyn ei gynlluniau gweithredu ar gyfer 2022-24, gan roi ystyriaeth i gyngor blaenorol gan y Black Leadership Group | ***Do/Naddo*** *(dileer fel bo'n briodol).*<br>*Os **naddo**, rhowch wybodaeth bellach.* |

| | |
|---|---|
| wedi diweddaru ei asesiadau effaith cydraddoldeb a'u defnyddio i lywio eich gwaith cynllunio | ***Do/Naddo*** *(dileer fel bo'n briodol).* *Os* ***naddo****, rhowch wybodaeth bellach.* |
| wedi nodi a gwneud cynnydd gyda blaenoriaethau sy'n seiliedig ar ddata | ***Do/Naddo*** *(dileer fel bo'n briodol).* *Os* ***naddo****, rhowch wybodaeth bellach.* |
| wedi ymgysylltu â'r prosiect cwricwlwm gwrth-hiliaeth (metaverse) (a gwerthusiad ohono) | ***Do/Naddo*** *(dileer fel bo'n briodol).* *Os* ***naddo****, rhowch wybodaeth bellach.* |

## Adran pump: Cwblhau matrics aeddfedrwydd Llywodraeth Cymru a darparu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwrth-hiliaeth

Yn 2025/26 (Awst 2025 i Orffennaf 2026) bydd colegau'n derbyn dyraniad untro ychwanegol o £4k i gyfrannu at gynnal yr hunanasesiad gan ddefnyddio matrics aeddfedrwydd y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac i gynnal hyfforddiant gwrth-hiliol sy'n briodol i anghenion a nodwyd gan y coleg.

| | |
|---|---|
| Cadarnhewch fod y coleg wedi cwblhau matrics aeddfedrwydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a rhoi crynodeb ar ffurf pwyntiau bwled canlyniadau yma (dim mwy na 300 o eiriau) | |

| **Cwestiynau am hyfforddiant** | **Manylion i'w darparu** |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Rhowch fanylion am hyfforddiant perthnasol yn gysylltiedig â gwrth-hiliaeth (rhowch deitl yr hyfforddiant, ffocws yr hyfforddiant, e.e. ystyriol o drawma, rhagfarn ddiarwybod), ac enwau unrhyw ddarparwyr allanol a ddefnyddiwyd. | |
| Nifer y staff a gafodd eu hyfforddi yn ystod pob sesiwn | |
| Mynycher yr hyfforddiant | |

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Adran chwech: Rhestr wirio ar gyfer cyflwyno dogfennau i Medr erbyn 19 Mehefin 2026.

| Mae'n ofynnol i golegau gyflwyno gwaith monitro i Medr er mwyn rhoi sicrwydd inni a rhoi cyfrif am gyllid cyhoeddus. | |
|---|---|
| Cadarnhewch fod y coleg yn anfon copi o'i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer 2025/26, gan gynnwys colofn 'cynnydd' wedi'i llenwi, i Medr ochr yn ochr â'r adroddiad monitro hwn. Lle cafwyd diweddariadau i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth y Coleg ar gyfer 2025/26, dylech gadarnhau y caiff y diweddariadau eu cyflwyno i Medr ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. | **Ydy / Nac ydy** *(dileer fel bo'n briodol)*<br>*Os **Nac ydy**, cadarnhewch pryd y cyflwynir y ddogfen i Medr.*<br>*Gellir gwneud sylwadau pellach yn y lle gwag hwn os oes angen.* |
| Cadarnhewch eich bod wedi llenwi'r ffurflen fonitro ac yn ei dychwelyd, ynghyd â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu. | **Do / Naddo** *(dileer fel bo'n briodol)*<br>*Os **Naddo**, cadarnhewch pryd y cyflwynir y ddogfen i Medr.*<br>*Gellir gwneud sylwadau pellach yn y lle gwag hwn os oes angen.* |

## Adran saith: Datganiad y Pennaeth/Prif Weithredwr

Fel rhan o ymrwymiad parhaus y Coleg i Wrth-hiliaeth ac o gynnydd tuag at ddod yn Wrth-hiliol, rydym yn gofyn i'r Pennaeth/Prif Weithredwr gadarnhau'r canlynol:

(i) bod yr wybodaeth a roddir yn gywir ac nad oes unrhyw grantiau penodol eraill na chyfraniadau allanol wedi'u gwneud nac yn cael eu gwneud tuag at y gwariant a nodir ar yr hawliad hwn;
(ii) bod y £25k wedi'i ddefnyddio yn ei gyfanrwydd (£21k a £4k).;
(iii) y caiff y cyllid grant ei ddefnyddio i'r dibenion y cafodd ei ddarparu ar eu cyfer;

| | |
|---|---|
| (iv) bod y cyllid a hawlir o fewn y terfynau gwariant cymeradwy; a<br>(v) bod y Coleg wedi ymrwymo i gyfrannu'n effeithiol at fersiwn newydd Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. | |
| **Enw a llofnod y Pennaeth:** | |
| **Dyddiad:** | |

**Ar ôl ei lenwi, dylech ddychwelyd yr adroddiad hwn ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau o'r matrics aeddfedrwydd a gwblhawyd gennych i em.cynhwysiant@medr.cymu.erbyn Dydd Gwener 19 Mehefin 2026.**